

Tasg 2

Mewn grŵp, trafodwch sut byddai'r ffordd orau o ddelio gyda'r sefyllfaoedd yma:

Sefyllfa 1

Rydych chi'n chwarae mewn tîm ac rydych chi ar fin ennill y gêm, ond mae un o'r tîm yn gwneud rhywbeth gwirion ac mae'r tîm arall yn sgorio.

Sefyllfa 2

Rydych chi'n gweithio mewn grŵp ac mae pawb i fod i gyfrannu at y gwaith. Dydy gweddill y grŵp ddim yn gwneud beth maen nhw i fod i'w wneud.

Sefyllfa 3

Rydych chi'n trefnu i gyfarfod â ffrind tu allan i'r sinema am saith o'r gloch ond dydy e / hi ddim yn dod.

Sefyllfa 4

Mae ffrind i chi wedi ysgrifennu dros eich cas pensiliau.

Sefyllfa 5

Rydych chi'n gweld ar Facebook fod eich ffrindiau chi i gyd yn mynd allan brynhawn dydd Sadwrn ond dydyn nhw ddim wedi dweud wrthoch chi.